

Rhif: WG43713



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg

Ymgynghoriad ar y
Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg Arfaethedig

Dyddiad cyhoeddi: 23 Tachwedd 2021
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 22 Chwefror 2022

Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg

Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio eich barn ar gynigion Llywodraeth Cymru ar y Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg sy'n cynnig pecyn o ymyraethau i gefnogi cymunedau Cymraeg sydd â dwysedd uchel o ail gartrefi.

Sut i ymateb

Dylid ebostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn **22 Chwefror 2022** hwyraf.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru/ymgyngghoriadau

Manylion cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth:

Is-adran y Gymraeg
Llywodraeth Cymru
Doc Fictoria
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1TH

<https://llyw.cymru/cynllun-tai-cymunedau-cymraeg>

ebost:

UnedlaithGymraegWelshLanguageUnit@gov.wales



@LIC_Addysg



Facebook/AddysgCymru

Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgwymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

e-bost:

Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r
Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF
Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg

Ffurflen ymateb i'r ymgyngoriad

Eich enw: Gwenith Price

Sefydliad (lle y bo'n berthnasol): Comisiynydd y
Gymraeg

e-bost/rhif ffôn: post@comisiynyddygybraeg.cymru /
0345 6033 221

Eich cyfeiriad: Siambrau'r Farchnad, 5-7 Heol Eglwys
Fair, Caerdydd

Dychwelwch eich ymatebion erbyn 22 Chwefror 2022 at

Is-adran y Gymraeg
Llywodraeth Cymru
Doc Fictoria
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1TH

neu anfonwch eich ymatebion yn electronig i:

e-bost: UnedlaithGymraegWelshLanguageUnit@gov.wales

Cwestiynau

Cwestiwn 1

Ydych chi'n meddwl y gallai model tai cydweithredol neu fodel tai a arweinir gan y gymuned helpu pobl leol i gael mynediad at dai fforddiadwy?

Yn yr adran hon o'r ymgynghoriad credwn fod angen rhagor o eglurhad ynghylch y bwriad i gefnogi model tai cydweithredol neu fodel tai a arweinir gan y gymuned fel modd penodol o ateb y broblem o ddiffyg tai fforddiadwy mewn cymunedau Cymraeg. Yn hynny o beth credwn fod angen gwell eglurhad o amcan yr ymyrraeth polisi hwn o ystyried maint y broblem yn y man cyntaf, gan gynnwys eglurhad o beth fydd effaith yr ymyrraeth ar y farchnad dai yn lleol. Rhaid wrth eglurhad yn ogystal o sut y bwriedir mesur cyflawniad yr ymyrraeth a gynigir.

Mae'n bosibl wrth gwrs y gallasai modelau tai cydweithredol helpu pobl leol i gael mynediad at dai fforddiadwy, trwy ddarparu tai newydd a phrynu a datblygu eiddo sy'n bodoli yn barod. Yn wir mae mentrau o'r fath wedi bodoli ers degawdau megis Cymdeithas Tai Gwynedd. O ddewis blaenoriaethu'r dull hwn rhaid dysgu gan brofiadau'r cyrff hyn sydd eisoes yn gweithredu yn y maes hwn a chytunwn y byddai angen darparu adnoddau ychwanegol i gynorthwyo gyda'r gwaith hwn mewn cymunedau Cymraeg. Fodd bynnag, credwn fod angen bod yn ymwybodol o anferthedd y gwaith o ddatblygu mentrau o'r fath, a bod angen i'r adnoddau a ddarperir adlewyrchu hynny. Nid mater bychan yw darparu tai newydd a phrynu a datblygu eiddo, yn arbennig os yw'n ddibynnol mewn sawl achos ar amser gwirfoddolwyr. Credwn fod angen eglurder ynghylch yr hyn a olygir wrth adnoddau ychwanegol, pa fath o adnoddau a olygir ac a fydd yr adnoddau yn cynnwys cyllid. Ein barn ni yw y dylid darparu cyllid sylweddol o ystyried pris eiddo a datblygu eiddo erbyn hyn mewn sawl cymuned yng Nghymru.

Er mwyn dod i gasgliadau pellach am fwriad y cam hwn felly, byddai angen llawer mwy o arweiniad ynghylch yr hyn y bwriedir i'r mentrau hyn ei wneud yn ymarferol, a hynny ar lefel hynod leol. Mae angen cynllunio yn lleol a sicrhau fod y prif randdeiliaid yn y maes tai yn rhan o'r gwaith, a byddai angen gwybodaeth hefyd am rôl yr awdurdodau lleol a'r cymdeithasau tai yn y gwaith. Mae'r ddogfen ymgynghori yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn ariannu codi 20,000 o dai cymdeithasol yng Nghymru. Rydym yn cymryd y gwneir hynny drwy awdurdodau lleol a chymdeithasau tai. Rhaid sicrhau bod y tai a ddatblygir ym mhob cymuned yn ateb gofynion lleol y cymunedau Cymraeg hyn. Rhaid parchu gwybodaeth cymunedau ar lefel hynod leol am y mathau o dai sydd eu hangen i sicrhau hyfywedd y Gymraeg yn y cymunedau hynny a chyfrannu at gymunedau cydlynus. Hynny ydi, mae angen ystyried a oes angen amrywiaeth o gartrefi o safbwynt maint a deiliadaeth gan gynnwys tai ar y farchnad agored yn ogystal â thai cymdeithasol gan fod amgylchiadau pob cymuned mor amrywiol hyd yn oed o fewn ardaloedd daearyddol cymharol fychan.

Nodwn fod y ddogfen ymgynghori yn cyfeirio at gymunedau Cymraeg lle gall yr angen am dai newydd fod yn gymharol fach. Mae hyn yn fater pwysig i'w gadw mewn cof yn ogystal. Rhaid felly i'r drefn gynllunio a pholisïau cynllunio cenedlaethol ehangach gefnogi bwriadau modelau tai a ddatblygir gan y gymuned gan adlewyrchu anghenion hynod leol cymunedau. Yn ei adroddiad, *Ail gartrefi: Datblygu polisïau newydd yng Nghymru* (2021), rhybuddiodd Simon Brooks, "*Gallai adeiladu gormodedd o dai gael effaith andwyol ar yr iaith Gymraeg*".

Cwestiwn 2

Sut all Llywodraeth Cymru annog mwy o ymwneud â'r model tai cydweithredol neu'r model tai a arweinir gan y gymuned yng Nghymru?

Fel yr ydym eisoes wedi'i nodi uchod nid yw'n glir beth y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei ddarparu fel pecyn cymorth yn y fan hon na beth yn hollol yw bwriad terfynol yr ymyrraeth polisi. Nid mater syml yw perchnogi a datblygu adnoddau cyhoeddus. Mae angen cryn gyllid yn ogystal â gwybodaeth am y drefn gynllunio, trethi ayb. Rhaid i'r arweiniad a ddarperir a pholisïau ehangach y Llywodraeth hwyluso'r model arfaethedig er mwyn ei wneud yn atyniadol. O ddilyn y trywydd polisi hwn byddai angen gweithio gyda'r grwpiau tai a arweinir gan y gymuned, cymdeithasau tai a'r ymddiriedolaethau tir cymunedol sydd eisoes yn gweithredu yng Nghymru i ddysgu am arfer da ac o'u profiadau hwy, a byddai angen tynnu sylw at enghreifftiau o ddatblygiadau llwyddiannus y maent wedi bod yn gyfrifol amdanynt. Byddai angen gweithio'n agos gyda chymunedau i'w galluogi i ganfod mentrau posibl sy'n adlewyrchu gofynion y cymunedau hynny. .

Cwestiwn 3

Beth yw'r heriau wrth geisio cynnal digon o fuddsoddiad a diddordeb lleol mewn mentrau cymdeithasol?

Nid yw'n eglur o'r ddogfen ymgynghori beth a olygir gan 'ddarparu adnoddau ychwanegol er mwyn helpu i ysgogi a llywio'r gwaith hwn mewn cymunedau Cymraeg'. A yw hyn yn golygu y bydd cyllid ar gael i gefnogi'r mentrau a fwriedir ynteu ai'r cyfan y mae adnoddau yn ei olygu yw canllawiau ac enghreifftiau o arfer da? Yn ein tyb ni byddai angen hyn i gyd ac fe fyddai cyllid digonol yn un ffordd o sicrhau diddordeb lleol. Credwn mewn gwirionedd y dylai gwaith i ganfod y prif heriau fod wedi digwydd cyn cyrraedd y pwynt o ymgynghori ar yr ymyrraeth polisi hwn ac y dylai'r ymyrraeth fod wedi'i siapiaio ar sail hynny

Gall mentrau cymdeithasol amrywio o grwpiau bychan cwbl wirfoddol heb gyflogeion i grwpiau llawer mwy sy'n cyflogi nifer o aelodau o staff ac mae'r dull y cânt eu corffori ym amrywio yn ogystal. Gall pwysau amser a chyfrifoldebau gwaith a theulu rwystro pobl rhag gwirfoddoli a chymryd rhan mewn mentrau cymdeithasol. Mae diffyg gwybodaeth am yr hyn sydd yn digwydd yn lleol a sut i gymryd rhan oherwydd diffyg mynediad at y cyfryngau cymdeithasol a ffynonellau gwybodaeth eraill hefyd yn gallu llesteirio sicrhau bod cynrychiolaeth wirioneddol o'r gymuned gyfan. Mewn nifer o gymunedau difreintiedig mae hefyd deimlad fod pobl wedi colli eu llais neu nad yw awdurdodau yn gwrando arnynt, felly mae angen dull democrataidd o sicrhau bod lleisiau pobl yn cael eu clywed. Gallai fod modd i bobl gefnogi mentrau cymdeithasol heb orfod neilltuo llawer iawn o amser i wneud hynny, petaent yn ymwybodol o'r gwahanol ffyrdd o gefnogi.

Her arall wrth gwrs yw sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn cyfranogi yn y mentrau hyn. Elfen hollbwysig o'r weledigaeth o fentrau cymdeithasol mewn cymunedau Cymraeg ddylai fod yr egwyddor eu bod yn cael eu cynnal a'u gweinyddu trwy gyfrwng y Gymraeg er budd hyfywedd y Gymraeg yn y gymuned honno. Mae ystyriaethau mor ymarferol â sicrhau bod offer cyfieithu ar y pryd ar gael i hwyluso cyfarfodydd yn y Gymraeg yn bwysig yn hyn o beth. Cyhoeddodd Comisiynydd y Gymraeg adroddiad ar *Y Gymraeg a gwirfoddoli* yn 2014. Gwnaeth nifer o argymhellion o safbwynt annog pobl i wirfoddoli, gan gynnwys defnyddio dulliau

creadigol a rhagweithiol i gysylltu gwirfoddolwyr â sefydliadau, megis trwy rwydweithiau cymdeithasol dwyieithog a phresenoldeb mewn digwyddiadau. Cynigiodd hefyd y dylid gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau megis y Mentrau Iaith a'r Urdd a'r sector addysg cyfrwng Cymraeg.

Cwestiwn 4

Pa gymorth neu gymhellion allai Llywodraeth Cymru eu cynnig fel bod cynllun o'r fath yn ennyn diddordeb?

Rydym eisoes wedi nodi bod angen bod yn glir ynghylch beth fydd effaith yr ymyrraeth polisi hwn ac felly mae angen sicrhau bod cymunedau yn glir ynghylch yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu i'r cynlluniau eu cyflawni felly. Rhaid sicrhau bod amcanion a chanlyniadau arfaethedig y cynlluniau yn glir, fel y bo pobl yn gwybod yn union sut y gallant hwy a'u cymuned elwa o'r cynlluniau unigol. Yn hynny o beth rydym eisoes wedi tynnu sylw at yr angen am gyllid sylweddol i gefnogi mentrau o'r fath.

Deallwn mai'r bwriad yn y fan hon fyddai hyrwyddo mentrau twristaidd cymunedol a chydweithredol. Fodd bynnag, credwn fod angen ystyried yr angen i hyrwyddo mentrau cymdeithasol a chymunedol mewn meysydd eraill sydd o fudd i gymunedau. Un enghraifft o hyn yw yn y maes gofal. Gwyddom fod Rhan 2, adran 16 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo datblygu sefydliadau dielw preifat yn eu hardal i ddarparu gofal a chymorth i ofalwyr a gwasanaethau ataliol. Mae'r modelau hyn yn cynnwys mentrau cymdeithasol, sefydliadau cydweithredol, trefniadau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector. Manylir ar hyn yng [nghod ymarfer rhan 2 y Ddeddf](#). Gwyddom fod darparu gofal trwy gyfrwng y Gymraeg yn her mewn sawl man a bod hynny'n gallu arwain at ofal gwael sy'n tanseilio urddas unigolion hŷn. Buasem yn eich annog i ganfod pa gefnogaeth y gallesid ei ddarparu i gynyddu gwasanaethau gofal Cymraeg sydd ar gael i bobl fel eu bod yn gallu derbyn gofal yn y Gymraeg yn agos at eu cymunedau.

Cwestiwn 5

I ba raddau ydych chi'n meddwl bod y Grŵp Llywio Gwerthwyr Tai yn ffordd ymarferol ac effeithiol o helpu gwerthwyr tai i chwarae eu rhan yn y gwaith o ddiogelu cymunedau Cymraeg?

Nid yw'n glir beth fydd y Grŵp Llywio Gwerthwyr Tai yn ei gyflawni yn ymarferol a chredwn fod angen rhagor o eglurder ynghylch yr 'ymchwil a phrosiectau newydd posibl a all gael eu datblygu' gan y grŵp, a beth fydd eu heffaith ar y farchnad dai. Credwn y dylid rhoi ystyriaeth i sefydlu Grŵp Llywio Cymdeithasau Tai, gan eu bod yn sefydliadau a ffurfiwyd yn benodol er mwyn canfod atebion ar gyfer anghenion tai cymunedau. Nodwn y bydd y cymdeithasau tai yn dod o dan gyfundrefn safonau'r Gymraeg maes o law.

Cwestiwn 6

Sut all gwerthwyr tai gael eu hannog neu eu cymell i fod yn rhan o'r Grŵp Llywio?

Fel yr ydym wedi'i nodi nid yw'n glir beth yw amcan yr ymyrraeth hwn o greu Grŵp Llywio Gwerthwyr Tai ac mae angen ystyried sut bydd ei lwyddiant yn cael ei fesur. Credwn y dylai gwerthwyr tai fod yn ymwybodol o'r heriau sy'n wynebu cymunedau ar draws Cymru ond wrth wneud hynny rhaid cydnabod mai bwriad gwerthwyr tai yw

gwerthu tai ar ran gwerthwyr. Dylid ystyried a fyddai modd ymgorffori dealltwriaeth o'r sefyllfa ac anghenion cymunedau Cymraeg mewn rhaglenni hyfforddi a gynhelir gan gyrff cynrychioladol yn y maes gwerthu tai, neu ddatblygu marc ansawdd ar gyfer gweithio er budd cymunedau Cymraeg. Efallai y buasai'r ymwybyddiaeth hwnnw yn cymell gwerthwyr tai i fod yn rhan o'r Grŵp Llywio arfaethedig.

Cwestiwn 7

A fyddai cyfnod byr o amser i breswylwyr lleol weld eiddo a gwneud cynnig arno yn eu helpu i gael mynediad at farchnadoedd eiddo?

Cwestiwn 8

Beth arall allai helpu i wneud yn siŵr bod prynwyr lleol yn cael 'chwarae teg' yn y farchnad dai?

Gallasai fod yn fuddiol cynnig cyfnod penodol o amser er mwyn rhoi'r cyfle cyntaf i bobl leol weld eiddo a gwneud cynnig arno. Fodd bynnag, cyfeiria adroddiad Brooks at gymunedau yng Nghymru lle mae'r cyflogau isel a'r gwahaniaeth rhwng prisiau tai yng Nghymru a Lloegr yn golygu nad oes gan bobl leol gymaint o gyfalaf â phobl o'r tu allan. Dan yr amgylchiadau hyn, ni fyddai cynnig amser ychwanegol i bobl leol wneud trefniadau ariannol i brynu eiddo o reidrwydd yn eu galluogi i gystadlu â phrynwyr mwy cefnog o'r tu allan i'r ardal leol. Byddai angen cymorth ychwanegol. Cynigiwn felly y dylai'r Llywodraeth ystyried dulliau eraill o sicrhau bod prynwyr lleol yn cael 'chwarae teg' yn y farchnad. Mae'n bosibl y gallasai hyn gynnwys darparu benthyciadau di-log i bobl leol ar gyfer prynu eiddo gydag amodau ar y benthyciad megis petai'r sawl a fyddai'n ei dderbyn yn gwerthu'r eiddo o fewn cyfnod penodol, y byddai cyfran o unrhyw elw a wneid o ganlyniad i gynnydd yng ngwerth yr eiddo yn cael ei thalu i'r Llywodraeth. Gallai'r Llywodraeth ddefnyddio unrhyw arian a dderbyniai o ganlyniad i gyllido benthyciadau eraill o'r math.

Dylai'r Llywodraeth hefyd ystyried cydweithio'n agos gyda chymdeithasau tai er mwyn cynorthwyo prynwyr lleol. Credwn y dylid archwilio posibiliadau eraill megis trwy annog cytundebau Adran 106 rhwng ACLlau a datblygwyr, a fyddai'n cefnogi prynwyr lleol.

Cwestiwn 9

Sut all Llysgenhadon Diwylliannol ymgysylltu ar lefel gymunedol i gefnogi cynhwysiant cymdeithasol a datblygu gwell dealltwriaeth o'n diwylliant, treftadaeth a'n hiaith?

Credwn fod angen rhagor o eglurhad am fwriad yr amcan polisi hwn o sefydlu rhwydwaith o Lysgenhadon Diwylliannol oherwydd nid ydym yn glir beth fydd eu hamcan a sut y mesurir llwyddiant eu gwaith. Credwn yn ogystal fod angen rhagor o eglurhad am berthynas ehangach y Llysgenhadon Diwylliannol â Mentrau Iaith, awdurdodau lleol a chymuned a grwpiau cymunedol perthnasol eraill. Er enghraifft, nododd yr adolygiad a gyhoeddwyd yn 2013 o *Waith y Mentrau Mentrau Iaith, y Cynlluniau Iaith, y Cynlluniau Gweithredu Iaith a Chynllun Hybu'r Gymraeg Aman Tawe* y canlynol am y berthynas rhwng y Cynlluniau Gweithredu Iaith oedd yn gweithredu ar yr un pryd â'r Mentrau Iaith, fod 'perygl i ddyblygu gwaith a gwrthdaro ddigwydd. Clywyd sôn bod hyn yn creu dryswch ac aneglurder o ran ffiniau cyfrifoldebau'¹.

¹ [Microsoft Word - 20140114 AD C Adolygiad Mentrau Iaith et al \(llyw.cymru\)](#)

Cwestiwn 10

Pa ffactorau penodol ddylai'r comisiwn eu hystyried o ran cynnal y Gymraeg fel iaith gymunedol?

Bu galwad yn ddiweddar gan y Cynghorydd Rhys Tudur am greu rhagdybiaethau ar gyfer cynaliadwyedd cymunedau yn y dyfodol. (Gweler tystiolaeth y Cynghorydd Tudur i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar 26 Ionawr 2022.²) Er mwyn creu rhagdybiaethau o'r math, gan gynnwys cynaliadwyedd y Gymraeg fel iaith gymunedol, byddai angen data am ffactorau megis nifer y plant yn yr ysgolion lleol, cyfrwng iaith yr ysgolion, nifer y preswylwyr parhaol yn y gymuned, oed y preswylwyr, nifer yr ail gartrefi a phatrymau pryniant tai. Ffactorau eraill pwysig yw rhai economaidd, cyflogadwyedd, mynediad at wasanaethau a thrafnidiaeth gyhoeddus. Noda'r Cynghorydd Tudur fod data am yr agweddau hyn yn cael ei gasglu eisoes ac mai'r hyn sydd ei angen nawr yw ei ddadansoddi mewn ffordd fwy manwl, ar lefel gymunedol. Byddai hyn yn caniatáu creu rhagdybiaethau a fyddai'n sail i weithredu'n amserol ac mewn ffordd effeithiol, wedi ei thargedu, i warchod cynaliadwyedd y Gymraeg fel iaith gymunedol. Cefnogwn yr alwad hon. Byddai datblygiad o'r math yn gam pwysig yn dilyn dadansoddi canlyniadau'r Cyfrifiad, y disgwylir i'r comisiwn ei wneud er mwyn deall y newid ieithyddol a fu yn ystod y degawd diwethaf.

Mae'n rhaid defnyddio gwybodaeth a data cyfamserol, yn ogystal â data am flynyddoedd diweddar, er mwyn sicrhau gallu cynllunio er hyfywedd cymunedau a'r iaith i'r dyfodol. Ategwn alwad yr Athro Mark Tewdwr-Jones am ddefnyddio data 'byw', cyfoes mewn ffordd ystyrlon yn y system gynllunio. Gwyddom o dystiolaeth yr Athro Tewdwr-Jones a'r Athro Nick Gallent bod angen gwybodaeth lawer mwy lleol a chyfredol am dueddiadau mudo ac yn y blaen, er mwyn sicrhau bod modd ymateb yn gyflym i newidiadau mewn cymunedau. Byddai angen llawer o adnoddau er mwyn cyflawni hyn.³ (Gweler tystiolaeth yr Athro Tewdwr-Jones a'r Athro Gallent i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar 17 Tachwedd 2021.⁴) Anogwn y Llywodraeth i fod yn rhagweithiol yn y ffordd y mae'n ymdrin â'r maes hwn.

Cwestiwn 11

Yn eich barn chi, pa heriau fydd y comisiwn yn eu hwynebu?

Un o'r heriau fydd y diffyg tystiolaeth ym maes ail gartrefi, a amlygwyd yn yr adroddiad, *Ymchwil i Ddatblygu Sylfaen Dystiolaeth ar Ail Gartrefi* (2021). Golyga'r diffyg hwn ei fod yn anodd egluro gwir effaith ail gartrefi a chynnig tystiolaeth i ddangos hynny. Mae hyn yn cynnwys eu heffaith bosibl ar y Gymraeg. Cefnogwn fwrriad y Llywodraeth i'r Comisiwn arfaethedig ddatblygu model i gyflwyno tystiolaeth i awdurdodau lleol ar hyfywedd y Gymraeg yn eu cymunedau. Gallai hyn fod o gymorth mawr wrth geisio mynd i'r afael â'r diffyg tystiolaeth yn y maes ac asesu gwir effaith ail gartrefi ar y Gymraeg (gweler ein hymateb i'r cwestiwn blaenorol yn hyn o beth).

Rydym yn croesawu mewn egwyddor y bwriad y bydd y Comisiwn ar Gymunedau Cymraeg yn 'datblygu model a fydd yn helpu'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau ar lefel llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru i allu nodi ardaloedd o sensitifrwydd ieithyddol arbennig.' Fodd bynnag, dylid pwysleisio bod risg y gallai dynodi rhai

² [Agenda Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar Dydd Mercher, 26 Ionawr 2022, 09.15 \(senedd.cymru\)](#)

³ [Agenda Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar Dydd Mercher, 17 Tachwedd 2021, 09.15 \(senedd.cymru\)](#)

⁴ [Agenda Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar Dydd Mercher, 17 Tachwedd 2021, 09.15 \(senedd.cymru\)](#)

ardaloedd penodol o sensitifrwydd arwain at ddiffyg ystyriaeth i'r Gymraeg y tu hwnt i'r ardaloedd hynny. Cyfeirir ar ddechrau'r ddogfen at bwysigrwydd cynnal y Gymraeg fel "prif iaith" mewn cymunedau yn y gorllewin a'r gogledd-orllewin a diogelu cymunedau ieithyddol hyfyw yn yr ardaloedd hynny. Cytunwn fod y gwaith hwn yn hollbwysig. Hoffem bwysleisio ar yr un pryd fod rhaid gweithredu i gynnal y Gymraeg ledled Cymru a diogelu pob cymuned o siaradwyr Gymraeg, boed fach neu fawr.

Credwn y dylid ailystyried Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20, *Cynllunio a'r Gymraeg* yn wyneb argymhellion yr ymgynghoriad hwn ac ymgynghoriadau eraill y Llywodraeth mewn perthynas ag ail gartrefi. Dylid ei diwygio fel y bo'r egwyddor o ddatblygiadau tai a arweinir gan anghenion y gymuned yn greiddiol iddo, ac yn hynny o beth mae angen diwygio'r cymal sy'n cyfyngu ar y gofyniad ar awdurdodau cynllunio i ystyried y Gymraeg wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio unigol yn dilyn cytuno'r Cynllun Datblygu Lleol. Rydym yn argymhell fod y Llywodraeth yn diwygio TAN 20 pan ddaw canlyniadau ei hymgyngghoriadau yn glir a phan fydd y Comisiwn arfaethedig wedi cael cyfle i ddechrau ar ei waith yn y maes hwn.

Rhaid i aelodau'r Comisiwn fod ag arbenigedd a gwybodaeth ddofn nid yn unig o gymunedau Gymraeg ond o fudoledd pobl, mudoledd cymdeithasol, gwrthdrefoli, yr economi, adfywio gwledig a nifer o feysydd eraill perthnasol.

Cwestiwn 12

A oes yna unrhyw enghreifftiau, arferion neu achosion o ddiddordeb a allai helpu'r comisiwn i ddeall y ffactorau sy'n effeithio ar yr iaith?

Dim sylw

Cwestiwn 13

Beth (arall), ynghyd â chymorth tai, y gellir ei wneud i gynorthwyo pobl leol, a phobl ifanc yn arbennig, i barhau i fyw a gweithio yn eu cymunedau?

Mae'r cwestiwn hwn yn un penagored iawn ac mae'n anodd ymateb heb gynigion penodol gan y Llywodraeth i ymgynghori arnynt. Mae'r argyfwng tai yn ei hanfod yn seiliedig ar anghyfartaledd economaidd sylweddol rhwng ardaloedd o Gymru ac ardaloedd mwy cyfoethog o Gymru a Phrydain. Ni ellir trin cymunedau lle ceir canrannau uwch o siaradwyr Gymraeg ar hyn o bryd yn yr un modd â chymunedau eraill a rhaid wrth ymyraethau mor radical â phosibl i'w cynnal ac i gynnal y Gymraeg ynddynt. Rhaid felly i bolisïau ehangach Llywodraeth Cymru, mewn meysydd eang o'r economi i amaeth ac i addysg a hyfforddiant, gyfrannu at yr amcan o gynorthwyo pobl leol, a phobl ifanc yn arbennig, i barhau i fyw a gweithio yn eu cymunedau. Dylai'r Comisiwn arfaethedig gynnwys hyn yn ei glych gorchwyl.

Cwestiwn 14

A oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau eraill ar unrhyw un o'r cynlluniau a nodir uchod?

Cwestiwn 15

Pa fath o ymyraethau lleol hoffech chi eu gweld i hyrwyddo pwysigrwydd enwau lleoedd Cymraeg, annog pobl i'w cadw ac i sicrhau bod y Gymraeg yn parhau i gael ei gweld yn ein cymunedau?

Fel y mae'r ymgynghoriad yn ei nodi, mae Comisiynydd y Gymraeg yn gyfrifol am argymhell ffurfiau safonol enwau aneddiadau yng Nghymru ac rydym yn cynghori awdurdodau lleol ac eraill ynghylch y ffurfiau safonol i'w defnyddio mewn cyd-destunau swyddogol. Hoffem bwysleisio fodd bynnag, nad yw'r sefyllfa'n sefydlog yn achos enwau aneddiadau chwaith. Yn aml ceir nifer o ffurfiau gwahanol yn cystadlu yn erbyn ei gilydd, a sylwn yn aml ar anghysondeb yn y ffordd y caiff enwau eu sillafu ar arwyddion, ar y we ac mewn cyhoeddiadau swyddogol. Gall hynny beri dryswch yn ogystal â phroblemau wrth geisio chwilio am leoliadau ar fapiau digidol neu ar beiriannau chwilio ar wefannau. Er bod yr enwau eu hunain felly yn gallu bod yn weddol 'sefydledig' ar lafar, nid yw'r ffurfiau neu'r ffordd y cânt eu hysgrifennu yn sefydledig fel y cyfryw a chamargraff yw dweud nad ydynt yn destun newid o bryd i'w gilydd. Ceir enghraifft dda o hyn yn *New Brighton*, Sir y Fflint, ar hyn o bryd lle rydym wedi derbyn sawl ymholiad diweddar yn mynegi awydd siaradwyr Cymraeg lleol i fabwysiadu'r enw Cymraeg *Pentre Cythraul* er nad yw'r enw hwnnw'n cael ei arddel gan yr awdurdod lleol ar hyn o bryd. Rydym wrthi'n trafod â'r awdurdod lleol a ddylid ei arddel yn ffurf safonol, swyddogol Gymraeg. Mae angen felly cywiro'r canfyddiad nad oes gwaith i'w wneud o hyd yn sefydlogi a gwarchod enwau aneddiadau, ac heb ddeddf neu ganllawiau statudol yn y maes hwn, anodd yw sicrhau bod awdurdodau lleol ac eraill yn defnyddio ffurfiau safonol. O dderbyn hynny fel man cychwyn, mae gwaith tebyg os nad mwy angen ei wneud yn sefydlogi a gwarchod enwau cymunedol eraill, gan gynnwys enwau strydoedd, ond rhaid pwysleisio ei bod yn bosibl mai'r un anawsterau a heriau fyddai'n codi heb fod grym statudol tu ôl i unrhyw ymdrechion.

Nid oes sôn penodol am ddata mapio a'i ddylanwad yn y ddogfen ymgynghori. Mae mawr angen ystyried y berthynas gymhleth rhwng y ffurfiau a gofnodir gan awdurdodau lleol, er enghraifft, a'r hyn a gofnodir ac a arddangosir ar fapiau, gan asiantaethau mapio cyhoeddus fel yr Arolwg Ordnans ond hefyd gan gwmnïau meddalwedd mawr. Wedi'r cyfan, mae'r straeon diweddar yn y Wasg am newid enw fferm Banc y Cornicyll i Hakuna Matata wedi codi yn sgil pobl yn gweld y newid ar fap Arolwg Ordnans. Gall fod yn arbennig o ddylanwadol yng nghyd-destun enwau tirweddol yn sgil y defnydd a wneir o ddata mapio yng nghyd-destun chwaraeon awyr agored. Mae'n hollbwysig fod Llywodraeth Cymru yn defnyddio ei dylanwad i bwysleisio wrth yr Arolwg Ordnans, a chwmnïau meddalwedd, yr angen sydd ymhlith sefydliadau a'r cyhoedd yng Nghymru am fapiau Cymraeg a dwyieithog sydd yn cofnodi ffurfiau yn y ddwy iaith (lle maent yn bodoli).

Rydym yn croesawu'r cynigion yn y ddogfen ymgynghori ac yn cytuno bod angen ymchwil drylwyr i bennu maint y broblem o newid enwau hanesyddol tai, a hynny ar draws pob awdurdod lleol. Yn sgil ein profiad ni o gynghori awdurdodau lleol am ffurfiau safonol enwau aneddiadau mae hi wedi dod yn amlwg bod ganddynt drefniadau amrywiol mewn perthynas â gweithredu eu dyletswyddau statudol i gofnodi enwau lleoedd. Byddai'n gymwynas â'r maes i gael trosolwg cynhwysfawr o'r trefniadau hyn ynghyd ag argymhellion ymarferol ynghylch sut y gellid rhannu arferion llwyddiannus ymhlith yr awdurdodau.

Mae'r Comisiynydd hefyd yn croesawu'r gwaith sydd ar y gweill i adolygu'r Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol ac yn falch o'r gwahoddiad i fod yn rhan o'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen fydd yn gwneud argymhellion ynghylch ei dyfodol. Un o flaenoriaethau'r Comisiynydd wrth gyfrannu at waith y Grŵp hwn fydd pwysleisio'r angen i gysylltu cynnwys y Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol â'r Rhestr o Enwau Lleoedd Safonol a gynhelir gan y Comisiynydd. Mae'n hollbwysig ei bod hi'n eglur i bawb – o'r awdurdodau lleol i aelodau o'r cyhoedd – sut orau i ddefnyddio'r cyfoeth o ffurfiau a gofnodir yn y Rhestr Hanesyddol yn ymarferol mewn cyd-destunau modern. Mae angen buddsoddi yn yr arlwy digidol er mwyn gwneud y Rhestrau hyn yn fwy hygyrch a deniadol i'r cyhoedd. Mae gan Gymru lawer i'w ddysgu yn hyn o beth o'r adnodd gwyb sydd gan Iwerddon i rannu gwybodaeth am enwau lleoedd ynghyd ag adnoddau addysgol amdanynt: <https://www.logainm.ie/en/>.

Mae enwau lleoedd o bob math yn sicr yn ffordd o wneud y Gymraeg yn berthnasol, yn weladwy a chlywadwy i bobl leol ac i ymwelwyr, ac mae cadw a gwarchod yr enwau hynny'n hollbwysig er mwyn gwarchod elfennau o'n treftadaeth a'n hanes. Ar y cyfan, mae enwau lleoedd a'u hystyron yn ennyn diddordeb pobl, ond ar yr un pryd maent yn elfennau sy'n cael eu cymryd yn ganiataol hefyd â'u defnyddio i bwrpas cwbl ymarferol. Er mwyn i drigolion lleol ddeall pwysigrwydd cadw enwau Cymraeg, credwn fod angen iddynt eu perchnogi, eu defnyddio a deall eu gwerth hanesyddol a'r hyn maent yn ei ddatgelu am y tir neu'r lleoliad.

Gellid ceisio ennyn y diddordeb mewn enwau lleoedd o oedran cynnar drwy gynnal gweithgareddau neu sesiynau creadigol mewn ysgolion (ar y cyd â bardd plant Cymru, arbenigwyr hanes lleol neu â chwmnïau awyr agored, er enghraifft) neu drefnu teithiau at nodweddion lleol er mwyn dod â'r enwau'n fyw. Er mwyn apelio at y gymuned ehangach, gellid cynnal darlithoedd cyhoeddus, trefnu teithiau awyr agored sy'n canolbwyntio ar enwau nodweddion a'u hystyron, a chydweithio â phapurau bro a chymdeithasau lleol er mwyn addysgu trigolion am ystyr enwau'r nodweddion cyfagos. Mae arwyddbyst sy'n rhoi amlygrwydd i enwau ac yn egluro eu hanes a'u harwyddocâd hefyd yn ddull ymarferol, arhosol a gweledol o warchod a hyrwyddo enwau lleoedd. Gellid ystyried annog cymunedau i gydweithio ag arbenigwyr hanes lleol i greu llyfryn o'r enwau hanesyddol lleol, eu hystyron ac unrhyw hanesion sy'n cyd-fynd â nhw, ac efallai y gellid gwneud hynny ar y cyd â'r Fenter Iaith Leol, y Llysgenhadon Diwylliannol arfaethedig a Chymdeithas Enwau Lleoedd Cymru ac â chyngor Panel Safoni Enwau Lleoedd y Comisiynydd. Gellid cynnwys llyfryn o'r fath neu gyflwyno llyfryn o deithiau/llwybrau cerdded lleol sy'n cynnwys gwybodaeth am yr enwau hanesyddol yn rhan o becyn croeso i newydd-ddyfodiaid. Rhaid cydnabod hefyd botensial technoleg i rannu gwybodaeth am yr enwau hyn – gan gynnwys sut mae eu hynganu. Byddai modd i'r adnoddau a restrir uchod fod yn rhai a gyflwynir yn ddigidol, er enghraifft, gyda defnydd creadigol o arwyddion a chodiau QR ar deithiau cerdded. A gellid comisiynu'r Mentrau Iaith i arwain prosiect creu ffeiliau sain gan bobl leol i gynorthwyo ag ynganiad; bu Menter Môn ynghlwm â phrosiect o'r fath yn 2017 lle buont yn recordio pobl yn ynganu enwau eu pentrefi genedigol yn eu hacenion eu hunain i'w cynnwys ar Wicipedia.

Byddai'n hynod werthfawr deall rhagor am gymhellion y bobl hynny sydd wedi dewis newid enw eiddo yn ffurfiol yn ystod y blynyddoedd diwethaf er mwyn cynllunio

ymyraethau rhagweithiol nad ydynt yn dieithrio pobl. Mae'n bosibl mai diffyg gwybodaeth am enwau Cymraeg hanesyddol, neu ddiffyg hyder ynghylch ynganu, sy'n aml yn peri i bobl newid enwau tai neu ffermydd, ac felly mae angen sicrhau bod gwybodaeth am enwau hanesyddol yn cael ei chyflwyno i'r prynwyr yn fuan yn y broses o brynu tir neu eiddo. Gellid cynnwys y wybodaeth am yr enw hanesyddol ac ystyr yr enw yn rhan o'r pecyn gwerthu neu'r pecyn gwybodaeth leol. Gellid cydweithio ag asiantaethau gwerthu tai ar brosiect peilot i ailfeddwl sut yr hysbyseb tir ac eiddo o'r fath a'u hysbysebu fel cyfle i brynu darn o hanes yn hytrach na phrynu adeilad neu dir yn unig, â'r nod o geisio ysgogi'r perchennog newydd i berchnogi'r hanes ac ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros ei warchod.

Gall enwau busnesau gael eu hystyried yn fygythiad hefyd pan cânt eu cysylltu â safleoedd ag iddynt enwau hanesyddol. Mewn achosion lle caiff enw busnes ei glymu ag enw safle hanesyddol, gellid cynghori na ellid disodli'r enw hanesyddol, dim ond ychwanegu enw'r busnes at yr enw hanesyddol a defnyddio'r ddau enw yn rhan o'r marchnata a'r brandio yn ogystal â'r cyfeiriad. Dylid trafod yr angen hwn â Busnes Cymru a Chroeso Cymru ac archwilio pa gymorth ymarferol y gallant hwy ei gynnig i fusnesau, yn enwedig y rheini yn y sector twristiaeth, i ddefnyddio enwau lleoedd Cymraeg i ddathlu Cymru a'r hyn sy'n ei gwneud yn gyrchfan unigryw.

Nid oes sôn penodol yn y cynigion am archwilio ffyrdd o warchod enwau tirweddol. Gall y rhain fod yn haws i'w gwarchod a'u hyrwyddo nag enwau eiddo personol. Mae'r Comisiynydd ar ganol prosiect peilot â Pharc Cenedlaethol Eryri i safoni enwau o fewn y parc a datblygu canllawiau i ddatblygu'r gwaith hwn yn y dyfodol. Bydd y Comisiynydd yn falch o drafod canfyddiadau'r prosiect hwn â chi maes o law ac ystyried pa fath o adnoddau fyddai eu hangen er mwyn estyn y prosiect peilot hwn a hyrwyddo'r defnydd o enwau Cymraeg tirwedd Cymru.

Cwestiwn 16

Beth arall ddylai gael ei ystyried fel rhan o'r Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg?

Hoffem ddiolch am y cyfle i gyfrannu at yr ymgynghoriad hwn. Gwaetha'r modd, rydym o'r farn ei fod yn heriol ymateb i nifer fawr o'r cwestiynau a ofynnir mewn ffordd ystyrlon oherwydd eu bod yn benagored, a bod diffyg manylder ynghylch y cynigion ac eglurhad ynghylch eu hamcanion a sut y byddant yn gwella'r sefyllfa dai mewn cymunedau Cymraeg. Credwn mewn sawl man y dylai'r ddogfen ymgynghori fod wedi gosod y cyd-destun strategol ar gyfer bwriadau'r Llywodraeth yn y maes hwn o safbwynt y farchnad dai, rheoleiddio, cydlynu ymdrechion gyda chymdeithasau tai. Dylid cynnwys eglurhad o'r effeithiau y disgwylir i'r ymyraethau arfaethedig eu cael a sut i fesur yr effeithiau hynny.

Cwestiwn 17

Pa newidiadau fydddech chi'n eu gwneud i'r cynigion sydd yn y cynllun hwn er mwyn eu gwneud yn fwy effeithiol?

Gweler ein hymateb i gwestiwn 16.

Cwestiwn 18

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

Gweler ein hymateb i gwestiwn 16.

Yn ogystal, hoffem bwysleisio'r angen am well data a gwybodaeth soffistigedig a chyfamserol am dueddiadau mudo pobl o safbwynt cynllunio ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys effeithiau tebygol ar gynaliadwyedd y Gymraeg ac adnoddau a gwasanaethau cymunedol. Hoffem wybod a fydd gan yr awdurdodau lleol rôl i'w chwarae yng nghydestun casglu tystiolaeth. Os felly, gofynnwn a fydd cefnogaeth ar gael iddynt gyda'r gwaith hwnnw.

Mae cynigion yr ymgynghoriad hwn yn cyffwrdd i raddfeydd gwahanol â nifer fawr o feysydd gwahanol gan gynnwys yr economi, gwaith a'r angen am fentrau a datrysiadau lleol a chymunedol, er nad yw'n gwbl glir bob tro beth yw cysylltiad yr ymyraethau â'i gilydd. Bwriedir cynnwys nifer o randdeiliaid yn y cynlluniau. Dylid sicrhau na fydd baich anghymesur yn cael ei roi ar grwpiau cymunedol i weithredu mewn meysydd sy'n gyfrifoldeb ar awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru. Dylai'r Llywodraeth asesu sut y gallai gryfhau isadeiledd cymunedau fel y rhai sydd dan sylw yn yr ymgynghoriad hwn, a defnyddio ei phwerau i weithredu ar hynny, cyn gosod cyfrifoldeb ar unigolion a grwpiau bach cymunedol i ddatrys problemau sy'n effeithio ar eu cymunedau ers blynyddoedd.

Pwysleisia'r ymgynghoriad yr angen i gasglu a dadansoddi tystiolaeth a datblygu polisiau wedi eu teilwra. Hoffem wybod beth yw bwriad y Llywodraeth o safbwynt monitro a gwerthuso llwyddiant y gweithredoedd a amlinellir yn y ddogfen ymgynghori, yn y tymor canolog a'r tymor hir. Os ydynt yn llwyddo ac yn lliniaru effeithiau negyddol ail gartrefi yn yr ardaloedd lle maent yn creu problemau, ac atal problemau rhag datblygu mewn ardaloedd eraill, ni fyddant yn datrys y mater unwaith ac am byth. Oherwydd cymhlethdod y maes a'r ffaith fod sefyllfa'r Gymraeg yn y cymunedau hyn yn ddibynnol ar gymaint o feysydd polisi amrywiol y mae'r Llywodraeth yn gyfrifol amdanynt, fel yr ydym wedi'i nodi yn ein hateb i gwestiwn 13, bydd angen i'r Llywodraeth barhau i fod yn hyblyg ac yn barod i ymateb i newidiadau a chyflwyno ymyraethau ar draws ei holl feysydd gwaith. Ni fydd cyflwyno'r ymyraethau yn yr ymgynghoriad hwn yn ddigon ynddynt eu hunain. Mae angen cynllunio'n barhaol ar sail rhagamcanion ar gyfer y dyfodol, fel y trafodwyd yn ein hateb i Gwestiwn 10 uchod. Credwn fod angen gwybod beth yw bwriad y Llywodraeth o safbwynt asesu ei bolisiau a'i weithredoedd ar draws pob adran, er mwyn sicrhau bod y sefydliad cyfan yn llwyddo i gynnal a chryfhau'r Gymraeg fel iaith gymunedol.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma:

